GOREU ARF, ARF DYSG

Learning to Excel

# YSGOL STANWELL

# Adroddiad ar yr Ymateb i'r Ymgynghoriad

**Ymgynghoriad ar y cynnig i newid categori**
**Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i**
**Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024 ymlaen**

*Gellir darparu'r ddogfen hon mewn fformatau ac ieithoedd eraill yn ôl yr angen. Cysylltwch â Chyngor Bro Morgannwg ar 01446 700111 i drefnu hyn.*

## TABL CYNNWYS


1.Cefndir ..... 4
1.1 Cynnig: I newid Ysgol Stanwell o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir yn y gymuned o fis Medi 2024 ..... 4
2. Amlinelliad o'r broses ymgynghori ..... 4
2.1 Cyhoeddi'r ymgynghoriad ..... 4
2.2 Ymgysylltiad rhanddeiliaid â'r ymgynghoriad ..... 5
2.3 Gwrthwynebiadau i'r cynnig ..... 6
2.4 Cyfarfodydd ymgynghori ..... 6
2.5 Cwestiynau'r Ymgynghoriad ..... 6
3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad ..... 7
3.1 Crynodeb o'r ymatebion ..... 7
3.2 Ymatebion i'r Cynnig i newid Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned ..... 8
4. Casgliad ..... **Error! Bookmark not defined.**
4.1 Ansawdd a safonau addysg ..... 10
4.2 Effaith ar y gymuned ..... 10
4.3 Trefniadau teithio ..... 11
5.4 Proses yn dilyn Cau'r Cyfnod Ymgynghori ..... 11
1. Atodiad A – Crynodeb o'r prif faterion o godwyd gan ymgyngoreion statudol a'r ymatebion gan gorff llywodraethu Ysgol Stanwell ..... 13
1.1. Materion a godwyd mewn perthynas â'r cynnig: ..... 13
Thema 1 ..... 13
Thema 2 ..... 13
Thema 3 ..... 14
2. Atodiad B – Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd o blaid y cynnig ..... **Error! Bookmark not defined.**
Thema 4 ..... 12
Thema 5 ..... 16
Thema 6 ..... **Error! Bookmark not defined.**
Thema 7 ..... **Error! Bookmark not defined.**
Thema 8 ..... 18
Thema 9 ..... **Error! Bookmark not defined.**
Thema 10 ..... **Error! Bookmark not defined.**
3. Atodiad C – Cwestiynau cyffredin ..... 19
4.Atodiad D – Ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc ..... 21
Digwyddiad Ymgynghori gyda disgyblion o Stanwell a'r Ysgolion Cynradd sy'n ei Bwydo ..... 21
Methodoleg gydag ymatebion disgyblion (tua 30 o ddisgyblion o'r cyngor Ysgol mewn grwpiau blwyddyn gwahanol) ..... 22
5. Atodiad E – Ymateb gan Estyn ..... 26
6. Atodiad F – Cofnodion Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynnig ..... 28

7. Atodiad G – Sylw anghywir yn y wasg i'r cynnig ............................................................................................................................................................................................................ 29

## 1. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o 11 Medi i 23 Hydref 2023, mewn ymateb i gynnig y Corff Llywodraethu i newid categori Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024. Mae ymatebion gan y Corff Llywodraethu i'r materion a godwyd wedi eu cynnwys hefyd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol hwn i ganfod barn gan bartïon perthnasol ar newid a reoleiddir fel y'i diffinnir yn "y Cod" i newid categori'r ysgol.

### 1.1 CYNNIG I NEWID YSGOL STANWEL O YSGOL SEFYDLEDIG I YSGOL A GYNHELIR YN Y GYMUNED O FIS MEDI 2024.

Penderfynodd Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad hwn yn dilyn sawl her sefydliadol a brofwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23. Fe wnaethom nodi y byddai'r ysgol yn elwa o gymorth ychwanegol gyda rheolaeth ariannol, cydymffurfiaeth a chynaliadwyedd hirdymor. Gwnaethom hefyd nodi y byddai'r cynnig yn caniatáu mynediad gwell at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro a chyllid a106, er enghraifft, drwy Raglen Cynnal a Chadw Cyfalaf a Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r broses ymgynghori, yn rhoi trosolwg o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig mwy o fanylion am y materion allweddol a'r sylwadau a godwyd gan randdeiliaid.

## 2. AMLINELLIAD O'R BROSES YMGYNGHORI

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac fe'i cyflawnwyd yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Bwriad yr ymgynghoriad yw sicrhau bod y Corff Llywodraethu'n canfod pob barn ac yn ystyried pob safbwynt wrth asesu rhinweddau addysgol y cynnig. Rhoddodd y broses ymgynghori gyfle i ymgyngoreion penodol ddysgu am y cynnig ac i'r Corff Llywodraethu glywed barn pawb sydd â buddiant yn y mater fel y gellid eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod gan y Corff Llywodraethu yr adnoddau ar gael i gydymffurfio â'r Ddeddf a'r Cod uchod, darparwyd cymorth gweinyddol gan swyddogion Cyngor Bro Morgannwg.

### 2.1 CYHOEDDI'R YMGYNGHORIAD

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol drwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgyngoreion penodol ac a gyhoeddwyd ar wefan yr Ysgol a'r Cyngor ar 11 Medi 2023. Roedd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori yn ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion, ac mae wedi'i ragnodi gan Lywodraeth Cymru yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynnig sy'n cael ei ystyried, sail resymegol y cynnig a manylion y broses ymgynghori. Roedd y ddogfen

ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Dywedwyd wrth yr ymgyngoreion bod fersiwn ar-lein ar gael i'w chwblhau.

## 2.2 YMGYSYLLTIAD RHANDDEILIAID Â'R YMGYNGHORIAD

Ymgysylltwyd ar y cynnig ag ymgyngoreion penodol fel y gwelir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol:

**Tabl 1: Rhestr o'r grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori**

| Rhestr o'r grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori | |
|---|---|
| Staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Stanwell | Aelodau unigol o Gorff Llywodraethu Ysgol Stanwell |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant Ysgol Stanwell | Cyngor Tref Penarth |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu ysgolion bwydo Stanwell | Cyngor Bro Morgannwg |
| Bwrdd Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP) Bro Morgannwg |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol |
| Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol | Cynghorwyr lleol |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Comisiynydd y Gymraeg |
| Estyn | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol | Undebau Llafur |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | Cyfarwyddwyr Addysg - yr Holl Awdurdodau Cyfagos |

Gwahoddwyd ymgyngoreion i lenwi ffurflen ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gellid ei chwblhau ar ffurf copi caled neu ar-lein yn: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Consultations/Changing-Stanwell-School-from-Foundation-School-to-Community-Maintained-School.aspx

Dim ond ymatebion i'r ymgynghoriad a roddwyd yn ysgrifenedig (naill ai drwy'r post neu'r arolwg ar-lein) sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## 2.3 GWRTHWYNEBIADAU I'R CYNNIG

Ni fydd ymatebion a dderbynnir gan ymgyngoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn, er eu bod yn cael eu hystyried fel rhan o adroddiad yr ymgynghoriad, yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o'r cyfnod rhybudd statudol pe bai'n cael ei gymeradwyo ar y cam nesaf gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol.

Dylid nodi felly, os ydym yn ei ystyried yn briodol symud i gam nesaf yr ymgynghoriad statudol, fod cyfle arall i unrhyw ymatebwyr wrthwynebu'r cynigion fel rhan o gam yr Hysbysiad Statudol. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu ar e-bost, a'u hanfon at y cynigiwr cyn pen cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad. Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Ysgol a Chyngor Bro Morgannwg a'i osod ar neu gerllaw prif fynedfa'r ysgol. Byddai copïau o'r hysbysiad yn cael eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni / gofalwyr, gwarcheidwaid ac aelodau staff.

## 2.4 CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn Ysgol Stanwell. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys cyfarfodydd staff a llywodraethwyr, digwyddiadau galw heibio i rieni a'r gymuned a sesiynau ymgysylltu â disgyblion. Amlygwyd y sail resymegol y tu ôl i'r cynigion ym mhob digwyddiad a rhoddwyd esboniad o'r broses statudol a'r amserlenni dan sylw gyda chyfle i drafod yn agored ymhlith pawb a oedd yn bresennol. Roedd y sesiynau hyn yn agored i'r holl randdeiliaid yn y broses ymgynghori. Mae adroddiad ar ganlyniad y sesiwn ymgysylltu â disgyblion i'w weld yn Atodiad D.

## 2.5 CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Gofynnwyd i'r ymgyngoreion am eu barn ar gwestiwn allweddol i bob cynnig:

**1) Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i newid ysgol Stanwell o statws sefydledig i statws cymunedol o fis Medi 2024?**

Roedd ymgyngoreion yn gallu ymateb Ydw, Nac ydw neu Dim barn y naill ffordd na'r llall i bob cynnig. Gwahoddwyd ymgyngoreion i ymateb i'r ddau gynnig pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

Cynigiwyd y cynnig i ymgynghoreion wneud sylwadau pellach hefyd:

**Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill i'r cynigion, nodwch y rhain isod.**

| |
|---|
| |
| **Unrhyw sylwadau eraill?** |

# 3. YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Amlinellir yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn ysgrifenedig rhwng 11 Medi a 23 Hydref 2023 yn yr adran hon.

## 3.1 CRYNODEB O'R YMATEBION

Cafwyd 106 ymateb unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Nodir dadansoddiad o'r ymatebion i bob cynnig yn y tablau a'r siartiau isod.

Nodwyd na roddodd pob un o'r ymgyngoreion ateb i bob cwestiwn a bod rhai ffurflenni'n anghyflawn. Yn yr achosion hyn, rydym wedi derbyn yr ymatebion i'r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu rôl mewn perthynas â'r cynnig. Roeddent yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd nodi'r ysgol maent yn gysylltiedig â hi (os o gwbl) mewn cysylltiad â'r cynnig, roedd yr ymatebwyr yn cael ticio mwy nag un opsiwn.

**Tabl 2: Yr ymatebion yn fanwl**

| Atodiad | Disgrifiad |
|---|---|
| **Atodiad A** | Mae crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgyngoreion statudol ac ymateb y Cyngor i'r materion hynny i'w gweld yn Atodiad A. |
| **Atodiad B** | Mae crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig i'w gweld yn Atodiad B. |
| **Atodiad C** | Mae'r ddogfen cwestiynau cyffredin wedi'i diweddaru i gynnwys y cwestiynau allweddol a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu (Atodiad C). |
| **Atodiad D** | Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori yn Ysgol Stanwell. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys sesiynau galw heibio i rieni a'r gymuned, cyfarfod staff, cyfarfod llywodraethwyr a sesiynau ymgysylltu â disgyblion. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses ymgynghori. Mae adroddiad ar ganlyniad y sesiwn ymgysylltu â disgyblion i'w weld yn Atodiad D. |
| **Atodiad E** | Ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad. Mae eu hymateb i'w weld yn Atodiad E. |
| **Atodiad F** | Cafodd y ddogfen ymgynghori ei chyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 12 Hydref 2023. Gellir dod o hyd i gofnodion y cyfarfod hwn yn Atodiad F, lle cymeradwywyd cynnig y Corff Llywodraethu. |
| **Atodiad G** | Sylw anghywir yn y cyfryngau i'r cynnig |


## 3.2 Ymatebion i'r Cynnig I NEWID STANWELL O YSGOL SEFYDLEDIG I YSGOL A GYNHELIR YN Y GYMUNED

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, roedd 53% o'r ymatebwyr o blaid y Cynnig a 47% yn gwrthwynebu'r cynnig.

**Tabl 3: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (Cynnig)**

| Cyfanswm yr ymatebion (unigol): | Cyfanswm o blaid | | Cyfanswm yn erbyn | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer | Nifer | % | Nifer | % |
| 106 | 56 | 53% | 50 | 47% |

**Siart 1: Rhaniad yr ymatebion o blaid ac yn erbyn y cynnig.**




Fel y dengys Tabl 4 a Siart 2 isod, roedd mwyafrif y grŵp mwyaf o ymatebwyr yn rhieni neu'n warcheidwaid, gyda chyfanswm o 45 o ymatebion yr oedd 20 (44.4%) ohonynt yn cefnogi'r cynnig a 25 (55.6%) ddim yn cefnogi'r cynnig.


Roedd y grŵp mwyaf nesaf o ymatebwyr yn ymwneud ag aelodau o staff gyda chyfanswm o 28 o ymatebion, gyda 24 ohonynt yn cefnogi'r cynnigl (85.71%) a 4 (14.29%) ddim yn cefnogi'r cynnig.

Dylid nodi bod yr ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn (e.e. gallen nhw fod yn rhiant ac yn aelod o staff).

**Tabl 4: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl**

| Rôl ymatebydd | Cefnogi | Ddim yn cefnogi | % yn Cefnogi | % Ddim yn Cefnogi |
|---|---|---|---|---|
| Cyn-ddisgybl | 0 | 1 | | 100.00% |
| Llywodraethwr; aelodau staff | 1 | 0 | 100.00% | |
| Preswylydd Lleol; | 3 | 13 | 18.75% | 81.25% |
| Preswylydd Lleol; Bydd plentyn yn mynychu yn y dyfodol; | 1 | 0 | 100.00% | |
| Preswylydd Lleol; Aeth y plant i Stanwell; | 0 | 1 | | 100.00% |
| Preswylydd Lleol; Rhiant neu warcheidwad*; | 0 | 1 | | 100.00% |
| Aelod o Staff*; | 24 | 4 | 85.71% | 14.29% |
| Aelod o Staff*; Llywodraethwr*; | 2 | 0 | 100.00% | |
| Aelod o Staff*; Preswylydd Lleol; | 1 | 1 | 50.00% | 50.00% |
| Rhiant neu warcheidwad*; | 20 | 25 | 44.44% | 55.56% |
| Rhiant neu warcheidwad*; Preswylydd Lleol; | 1 | 4 | 20.00% | 80.00% |
| Rhiant neu warcheidwad*; Aelod o Staff*; Preswylydd Lleol; | 1 | 0 | 100.00% | |
| Rhiant neu warcheidwad*; Disgybl*; | 1 | 0 | 100.00% | |
| Disgybl*; | 1 | 0 | 100.00% | |
| **Cyfanswm yn Cefnogi a Ddim yn cefnogi** | **56** | **50** | **52.83%** | **47.17%** |
| Cyfanswm yr ymatebion | **106** | | | |

### Siart 2: Rhaniad yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl




## CASGLIAD

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd drwy gydol y cyfnod ymgynghori, mae'r Corff Llywodraethu wedi ailedrych ar y cynnig i benderfynu ar yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

## 4.1 ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG

Cafodd Ysgol Stanwell ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2022. Roedd yr arolygiad cyffredinol yn gadarnhaol iawn ac yn amlygu cryfderau sylweddol mewn addysgu a dysgu, arweinyddiaeth, darpariaeth a safonau, yn ogystal â darparu tri argymhelliad fel yr amlinellir isod:

ARGYMHELLION

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 Gwella defnydd athrawon o gwestiynu i ddatblygu gallu disgyblion i feddwl yn annibynnol
- A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael digon o amser yn ystod y diwrnod ysgol i ymlacio, cymdeithasu neu ddilyn eu diddordebau eu hunain
- A3 Cynyddu'r ystod o gyfleoedd sydd gan ddisgyblion i ymarfer eu Cymraeg

Yn ymateb Estyn i'r ymgynghoriad (Atodiad E) daethant i'r casgliad ei bod yn debygol y bydd y cynnig i newid Ysgol Stanwell o ysgol sefydledig i ysgol gymunedol o fis Medi 2024 i gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

Dywedon nhw fod Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell wedi rhoi rhesymeg glir dros y cynnig yn y ddogfen ymgynghori. Ceir disgrifiad ac esboniad manwl o'r cynnig, ac amserlen ragamcanol ar gyfer y gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu'r cynnig.

Amlygodd Estyn fod y Corff Llywodraethu wedi nodi'n glir ac yn deg y buddion a'r anfanteision disgwyliedig o'u cymharu â'r drefn arferol. Y brif fantais yw sicrhau gwell cynaliadwyedd a rheolaeth ariannol i'r ysgol drwy ddod yn ôl o fewn goruchwyliaeth yr awdurdod lleol. Mae manteision posibl hefyd o ran sicrwydd cynharach o leoedd ysgol, gwell cydweithio ag ysgolion eraill a mwy o ddefnydd o gyfleusterau ysgol gan y gymuned. Y brif anfantais fydd ansefydlogi posibl o ran dod â chyflogau staff cymorth i drefniadau cydraddoldeb cyflog statws sengl y cyngor. Caiff hyn ei gydnabod fel risg bosibl gan y Corff Llywodraethu a chyfeirir ati ar dudalen 4 y <u>Ddogfen ymgynghori</u>. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i roi'r cymorth angenrheidiol i Ysgol Stanwell fynd i'r afael ag unrhyw faterion cyflogaeth.

## 4.2 EFFAITH AR Y GYMUNED

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ac fe'i cyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn cael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Os bydd yr ysgol yn newid i statws cymunedol, y bwriad yw y bydd yr holl wasanaethau presennol i blant a'r gymuned ehangach yn parhau i redeg. Byddai'r cynnig yn cefnogi

gwell cyfleoedd drwy gyllid a mentrau ar y cyd i rieni a'r gymuned leol gael mynediad i ysgol bro, gan greu cysylltiad cymunedol agosach.

## 4.3 TREFNIADAU TEITHIO

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded yr ysgol briodol agosaf. Mae hyn yn bellter o 3 milltir i ddisgyblion oed uwchradd yn unol â 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'.

Dan y cynigion hyn, nid oes unrhyw gynlluniau i newid y polisi presennol ar gludo plant i'r ysgol ac yn ôl.

## 5.4 Y BROSES YN DILYN Y CYFNOD YMGYNGHORI

Yn Adroddiad yr Ymgynghoriad, yn Is-adran Dyddiadau Allweddol y Broses Ymgynghori Statudol (Tabl 9), ceir rhestr o ddyddiadau enghreifftiol ar gyfer y broses statudol. Mae tabl cyfredol o'r dyddiadau allweddol isod.

**Tabl 4: Dyddiadau allweddol cyfredol y broses**

| **Proses Statudol** | **Amserlen** |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori | **11 Medi 2023** |
| Dyddiad cau i gyflwyno barn ar y cynigion | **23 Hydref 2023** |
| Yr adroddiad ymgynghori wedi ei ystyried gan y Corff Llywodraethu a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor | **23 Tachwedd 2023** |
| Yr adroddiad ymgynghori i gael ei gyhoeddi ar wefan yr Ysgol a'r Cyngor | **27 Tachwedd 2023** |
| Yn amodol ar gymeradwyaeth, hysbysiad Statudol i gael ei gyhoeddi a gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol i gael eu gwahodd | **9 Ionawr 2024** |
| Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol | **6 Chwefror 2024** |
| Adroddiad gwrthwynebu i gael ei gyhoeddi pan dderbynnir gwrthwynebiadau | **Chwefror 2024** |
| Hysbysiad o'r penderfyniad | **Diwedd Chwefror 2024** Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, bydd y Corff |

| Proses Statudol | Amserlen |
| --- | --- |
| | Llywodraethu yn penderfynu ar y cynnig.<br>**Mawrth 2024** Os derbynnir gwrthwynebiadau bydd y mater yn cael ei gyfeirio i Gabinet y Cyngor i'w benderfynu |
| Cyflwyno newid o | **Medi 2024** |

## 1. ATODIAD A - CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL A GODWYD GAN YMGYNGOREION STATUDOL AC YMATEBION CORFF LLYWODRAETHU YSGOL STANWELL

Mae'r canlynol yn crynhoi'r themâu allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Trosolwg o'r ymatebion yn unig a geir yma ac felly nid ydynt yn air am air.

### 1.1. MATERION A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â'R CYNNIG:

THEMA 1

**Cyngor i benderfynu dosraniad cyllid**

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynnig yn arwain at y Cyngor yn penderfynu ar gyllideb yr ysgol, a fyddai yn ei dro yn arwain at rannu cyllid ag ysgolion eraill ym Mro Morgannwg.

**Ymateb y Corff Llywodraethu i'r pryderon a godwyd**

Mae Ysgol Stanwell wedi bod yn Ysgol a Gynhelir gan yr Awdurdod Lleol ers 1998 ac mae cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn cael ei phennu gan Fformiwla Ariannu Ysgolion Prif Ffrwd. Datblygwyd y fformiwla hon ac fe'i hadolygir mewn ymgynghoriad â'r Fforwm Cyllideb Ysgolion. Mae'r fformiwla hon yn berthnasol i'r holl ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol ym Mro Morgannwg, gan gynnwys Ysgol Stanwell. Ni fyddai unrhyw newid yn y categori ysgolion yn cael unrhyw effaith ar ddyraniad y gyllideb y mae'r ysgol yn ei dderbyn. Mae cyllideb yr Ysgol yn cael ei dirprwyo i'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr, a bydd yn parhau i gael ei dirprwyo, fel sy'n wir am bob ysgol yng Nghymru. Ni fyddai unrhyw newid i hyn o ganlyniad i'r newid arfaethedig yn y categori.

Ar hyn o bryd mae cyllideb yr ysgol yn cael ei rheoli gan y Corff Llywodraethu heb fawr o oruchwyliaeth gan Gyngor Bro Morgannwg. Pe bai'r cynnig hwn yn dwyn ffrwyth, byddai Ysgol Stanwell yn elwa ar gymorth ariannol arbenigol ychwanegol ar reoli cyllideb a chaffael gan Gyngor Bro Morgannwg gan gynnwys arfer gorau a rennir gan ysgolion eraill. Byddai hefyd yn sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio ac yn cael ei chefnogi i fodloni ei gofynion ariannu teg. Byddai'r ysgol hefyd yn elwa ar gymorth gyda llif arian parod, caffael a mynediad at gronfeydd Adran 106 ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Fel ysgol a gynhelir yn y gymuned, byddai ffrydiau cyllid Cyfalaf ychwanegol ar gael, yn amodol ar flaenoriaethu sy'n gysylltiedig ag arolygon cyflwr ysgolion a data arall, gan gynnwys cynllun adnewyddu asedau hirdymor a buddsoddi cyfalaf y Cyngor, cynllun bidio cyfalaf ac A106.

THEMA 2

**Mae Ysgol Stanwell yn elwa ar beidio â defnyddio Cymorth y Cyngor**

Teimlai'r ymatebwyr fod Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell wedi llwyddo i weithredu'r ysgol yn llwyddiannus heb gymorth y Cyngor ac yn credu y bydd mwy o gyfranogiad yn arwain at ostyngiad mewn effeithlonrwydd, cyllid a chanlyniadau addysgol i ddisgyblion.

### Ymateb y Corff Llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Byddai rheolaeth a gwneud penderfyniadau yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y pennaeth a'r Corff Llywodraethu ac ni fyddai hyn yn newid drwy newid yn y categori. Byddai'r cynnig yn cefnogi adnoddau ac arbenigedd ychwanegol sydd ar gael i'r ysgol, gan alluogi mwy o amser i ganolbwyntio ar ddysgu ac addysgu. Ni fyddai'r cynnig i newid categori ysgol yn effeithio ar safonau a chynnydd disgyblion a staff ysgol Stanwell. Byddai uwch arweinyddiaeth yr ysgol yn cynnal yr un rheolaeth o ddydd i ddydd heb unrhyw newidiadau ar wahân i Fro Morgannwg yn rheoli proses dderbyniadau'r ysgol. Mae'r ysgol eisoes yn gweithio gyda'r Cyngor ar faterion derbyn a byddai'r newid yn hyrwyddo gwaith agosach rhwng ysgolion. Ni fyddai'r cynnig hwn yn newid dalgylch yr ysgol, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ysgol leol i ddisgyblion lleol, a byddai trefniadau pontio yn sicrhau na fydd effaith ar ddisgwyliadau rhieni ysgolion bwydo o le.

Ni fydd y cynnig arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar y cwricwlwm. Bydd Ysgol Stanwell yn parhau gyda gwaith i weithredu ac ymgorffori'r Cwricwlwm i Gymru fel y bo'n briodol. Mabwysiadwyd y cwricwlwm hwn gan yr ysgol yn ystod tymor yr haf 2022 a dechreuodd y gwaith gweithredu ym mis Medi 2022.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bro Morgannwg i fynd i'r afael â rhai o'r pwysau ariannol presennol, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn ddiweddar drwy ei archwiliad diweddar, ochr yn ochr â'r pwysau sy'n wynebu addysg o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol. O safbwynt ariannol, mae'r cynnig yn ceisio cefnogi cynaliadwyedd ariannol tymor hwy yr ysgol.

Byddai newid categori i ysgol Gymunedol yn cefnogi Stanwell i weithio'n agosach gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y Cyngor, Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill er mwyn gwella canlyniadau addysgol ymhellach a lliniaru nifer o ffactorau allanol heriol sy'n wynebu addysg yn fwy cyffredinol gyda mwy o arbedion maint.

---

## THEMA 3

### Pryder rhieni mewn cysylltiad â derbyniadau

Nododd un ymatebydd fod ganddo blentyn mewn ysgol gynradd fwydo a phlentyn arall a oedd fod i ddechrau yn y feithrinfa yn ystod y blynyddoedd nesaf ac roedd yn pryderu na fyddai'r plentyn ieuengaf yn gallu mynychu Ysgol Stanwell gyda'i frawd neu chwaer hŷn.

### Ymateb y Corff Llywodraethu i'r pryderon a godwyd

Fel rhan o'r cynnig hwn, mae'r Cyngor yn ymrwymo i sefydlu trefniadau pontio ar gyfer y plant hynny sy'n bresennol yn un o ysgolion cynradd bwydo dynodedig Stanwell cyn

newid statws. Byddai'r trefniadau pontio yn dod i ben ar gyfer proses drosglwyddo blwyddyn 6 i addysg uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf o dan drefniadau pontio yn gadael ei ysgol gynradd fwydo.

Yr ysgolion bwydo dynodedig yw Albert, Evenlode, Silly a Victoria. Byddai trefniadau pontio yn rhan o'r polisi derbyn a byddent yn amodol ar gymeradwyaeth Cabinet y Cyngor.

Felly, bydd y Cyngor yn cadw'r cyswllt â’r ysgol gynradd fwydo ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024. Byddai pob plentyn o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6 ysgol fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 yn cadw eu statws bwydo. Ni chynigir unrhyw newidiadau i ddalgylchoedd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Yn y tymor hir, o dan bolisi'r cyngor, byddai preswylio o fewn dalgylch ysgol yn sicrhau bod plant lleol yn cael blaenoriaeth ar gyfer mynediad i'w hysgol leol. Yn y rhan fwyaf o achosion o dan drefniadau presennol ysgolion bwydo, mae'r rhan fwyaf o blant mewn ysgolion bwydo hefyd yn byw yn nalgylch ysgol Stanwell felly ni fyddai effaith sylweddol ar dderbyniadau i'r ysgol, fodd bynnag, byddai'n darparu dull gwell o ymdrin â derbyniadau i'r disgyblion hynny sy'n byw yn y gymuned leol. Felly, byddai gan blentyn sy'n gwneud cais gyda chysylltiad brawd neu chwaer a oedd hefyd yn byw mewn dalgylch ysgol gyfle gwych o gael ei dderbyn i ysgol.

## 2. Atodiad B - crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig.

Mae’r adran hon yn dangos sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rheiny a oedd o blaid y cynnig. Mae’r materion yn cyflwyno trosolwg o’r ymatebion ac felly nid ydynt yn cynnwys popeth nac yn air am air.

### THEMA 4

**Effaith ar ddeilliannau dysgu**

Nododd un ymatebydd fod ymchwil a wnaed gan sefydliad addysg dielw wedi canfod bod ysgolion cymunedol sydd wedi'u gweithredu'n dda wedi dangos gwell deilliannau dysgu i ysgolion a myfyrwyr.

**Ymateb y Corff Llywodraethu**

Rydym yn falch iawn bod Ysgol Stanwell wedi bod yn y 3 ysgol orau yng Nghymru ers blynyddoedd lawer o ran canlyniadau TGAU ac yn y 10% uchaf o holl ysgolion y DU ar gyfer Safon Uwch. Cafodd ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2022 a chyflawnodd adroddiad rhagorol, fel gyda phob arolygiad blaenorol. Bydd yr ymrwymiad hwn i

ragoriaeth yn parhau ar ran y staff a'r llywodraethwyr ac edrychwn ymlaen at groesawu myfyrwyr a rhieni newydd dros y blynyddoedd nesaf a fydd yn parhau i fwynhau'r ystod enfawr o gyfleoedd a gyflwynir i'r bobl ifanc yn ein gofal.

Gan na fyddai rheolaeth weithredol yr ysgol o ddydd i ddydd yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn, byddai effaith gweithio'n agosach gyda'r Cyngor, Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill a gynhelir yn y gymuned i gyd yn gadarnhaol felly. Rydym yn ymwybodol bod Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ei ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel, a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf.

Mae Stanwell a'r Cyngor yn gweithio gydag Estyn a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i fonitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi gwella ysgolion. Bydd cydweithio hefyd yn rhoi cymorth i ni barhau â'n hetifeddiaeth o gyflawni deilliannau addysgol gwych.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y Goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn gorff annibynnol ond mae'n derbyn ei arian gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant Cymru.

Sefydlwyd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol ym Mro Morgannwg.

---

THEMA 5

**Byddai Ysgol Stanwell yn gwella o ganlyniad i gefnogaeth y Cyngor**

Awgrymodd yr ymatebwyr pe bai Ysgol Stanwell yn dod yn ysgol a gynhelir yn y gymuned, y byddai'n elwa ar gymorth y Cyngor mewn nifer o feysydd gan gynnwys cyllid, gwell perthnasoedd gwaith a lles disgyblion.

**Ymateb y Corff Llywodraethu**

Byddai ysgol Stanwell yn elwa ar weithio'n agosach gyda'r Cyngor ac ysgolion eraill er mwyn sicrhau'r deilliannau dysgu gorau i'r holl ddisgyblion. Mae enghraifft o hyn yn ymwneud â chefnogi ein dysgwyr mwy agored i niwed. Mae'r ysgol eisoes yn cyfeirio rhai o'n disgyblion at Banel Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (PICEM) y Cyngor a'r Tîm Cynhwysiant i gael cymorth ynghylch presenoldeb a gwaharddiadau. Byddai'r Ysgol yn elwa ar weithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd eraill a rhannu data â'r awdurdod lleol, a thrwy hynny sicrhau bod y cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael i'r ysgol yn cael eu cynyddu.

---

THEMA 6

**Monitro a Chefnogi Rheolaeth Ariannol**

Nododd yr ymatebwyr pe bai Ysgol Stanwell yn dod yn ysgol gymunedol a gynhelir, y byddai'n elwa o gymorth ychwanegol mewn perthynas â chyllid a mynediad at gyllid yn y dyfodol.

**Ymateb y Corff Llywodraethu**

Pe bai'r cynnig hwn yn dwyn ffrwyth, byddai Stanwell yn elwa o gymorth ariannol a chaffael arbenigol ychwanegol, gyda mynediad gwell at arbenigedd arbenigol gan Gyngor Bro Morgannwg. Byddai'r ysgol hefyd yn elwa ar gymorth gyda llif arian parod, caffael a mynediad at gronfeydd Adran 106 ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Fel ysgol sefydledig, cyfrifoldeb Stanwell ar hyn o bryd yw sicrhau bod adeiladau'r ysgol yn cael eu cynnal ac yn addas at y diben. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn atebol yn ariannol am unrhyw waith cyfalaf, gwelliannau a buddsoddiadau yn yr ystad, yn ogystal â gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio rheolaidd. Fel ysgol gymunedol, byddai cyfrifoldeb am adeiladau Stanwell yn trosglwyddo i'r cyngor ac o ganlyniad, byddai gwaith cyfalaf a nodwyd drwy arolygon cyflwr yn cael ei flaenoriaethu a'i gynnal o raglen cyllid cyfalaf ac adnewyddu asedau’r cyngor. Byddai hyn yn helpu i leddfu rhywfaint o bwysau ariannol a sefydliadol gan mai Cyngor Bro Morgannwg fyddai'n gyfrifol amdanynt.

---

THEMA 7

**Bydd yr ysgol yn dilyn Canllawiau Caffael / Tendro LlC**

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, awgrymodd ymatebwyr y byddai'n arwain at orfod dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn fwy llym yn y dyfodol.

**Ymateb y Corff Llywodraethu**

Fel corff llywodraethu, mae'n rhaid i ni eisoes ddilyn holl ganllawiau a deddfwriaeth statudol Llywodraeth Cymru ac rydym wedi ymrwymo i wneud hynny. Ni fydd y rhwymedigaeth hon yn newid o ganlyniad i’r cynnig. Ar hyn o bryd, gweinyddir derbyniadau gan yr ysgol ac fe'u gwneir yn unol â Chod Derbyn Llywodraeth Cymru: Mae Stanwell bob amser wedi bod yn ysgol gyfun annetholus.

Mae hefyd yn ofynnol i ni gadw at ddeddfwriaeth cyflogaeth. Ar hyn o bryd mae'r corff llywodraethu yn cyflogi'r staff ac yn allanoli ein cymorth AD i gwmni preifat ag enw da. Os byddwn yn dod yn ysgol gymunedol, yna byddai Cyngor Bro Morgannwg ar gael i roi'r cymorth angenrheidiol i Ysgol Stanwell fynd i'r afael ag unrhyw faterion cyflogaeth a byddai hefyd yn cefnogi'r corff llywodraethu a'r staff i drosglwyddo contractau cyflogaeth i'r holl staff i adlewyrchu'r cyngor fel y cyflogwr cyfreithiol. Yn ddiweddar, rydym wedi cofrestru â gwasanaethau cyflogres a chymorth ariannol Bro Morgannwg i roi rhywfaint o sicrwydd ychwanegol mewn perthynas â'n heriau ariannol. Fodd bynnag, mae'r newid hwn o ganlyniad i Stanwell yn mabwysiadu'r cytundeb lefel gwasanaeth a gynigir, yn hytrach nag o ganlyniad i unrhyw newid arfaethedig mewn categoreiddio.

THEMA 8

**Darparu polisi derbyn gwell**

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo wrth i Ysgol Stanwell ddod yn ysgol gymunedol a gynhelir a dilyn polisi derbyn y cyngor, y byddai'n decach ac yn sicrhau bod yr ysgol yn fwy hygyrch i ddisgyblion lleol.

**Ymateb y Corff Llywodraethu**

Rydym bob amser yn sicrhau ein bod yn cadw at yr holl ddeddfwriaeth a chodau statudol sydd ar waith o ran derbyniadau ysgolion. Fel ysgol sefydledig, mae Stanwell yn penderfynu ar ei feini prawf derbyn ei hun ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid oes prosesau derbyn cydlynol ar waith rhwng Stanwell a'r cyngor, fel sy'n wir am y mwyafrif o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion a reolir ym Mro Morgannwg. Gall hyn arwain at rai anfanteision anfwriadol i ymgeiswyr pan fydd rhieni disgyblion yn gwneud cais am fwy nag un lle mewn ysgol ac yn ei dderbyn ac, wrth wneud hynny, yn atal plentyn arall rhag cael lle yn brydlon. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gweithredu trefniant ysgol fwydo ar gyfer mynediad i'r ysgol. Mae'n derbyn ceisiadau ymhell dros nifer y lleoedd a ddyrennir i ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd bwydo yn ystod cam trosglwyddo blwyddyn 6. Gallai hyn olygu y gall disgyblion sy'n byw y tu allan i Fro Morgannwg gael lle mewn ysgol gynradd fwydo a chael blaenoriaeth ar gyfer lleoedd ysgol dros ddisgyblion sy'n byw yn y gymuned leol sydd heb gael lle yn un o ysgolion bwydo Stanwell. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod eu hysgolion yn gwasanaethu eu cymuned leol a bod eu trefniadau derbyn i ysgolion yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. Ni chynigir unrhyw newidiadau i ddalgylchoedd fel rhan o'r cynnig hwn. Mae'r nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol ar gyfer pob grŵp blwyddyn hefyd yn uwch na'r galw cyfredol a rhagamcanol o fewn dalgylch yr ysgol.

THEMA 9

**Ymagwedd deg at ysgolion bwydo**

Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol o gynnwys trefniadau pontio tan 2030 fel rhan o'r cynnig, sy'n parhau i flaenoriaethu plant ar y gofrestr mewn ysgol gynradd bwydo.

**Ymateb y Corff Llywodraethu**

Mae'r corff llywodraethu a'r cyngor yn ymwybodol bod penderfyniadau mewn perthynas ag ysgolion uwchradd a ffefrir yn aml yn cael eu gwneud pan fydd plant yn ifanc iawn. Er mwyn sicrhau nad yw unrhyw newid arfaethedig i gategori Ysgol Stanwell yn effeithio ar gynlluniau y gallai rhieni fod wedi'u gwneud eisoes, byddai trefniadau derbyn pontio yn cael eu rhoi ar waith i anrhydeddu'r trefniadau bwydo a adlewyrchir ar hyn o bryd ym mholisi derbyn Stanwell a chynnig haen ychwanegol o sicrwydd. Byddai'r trefniadau pontio hyn yn dod i ben ar gyfer proses drosglwyddo

blwyddyn 6 i addysg uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf o dan drefniadau pontio yn gadael ei ysgol gynradd fwydo.

Hefyd, nid oes unrhyw newidiad i ddalgylch Stanwell a gynigir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol am nad oes unrhyw newid yn cael ei gynnig i'r dalgylch presennol fel rhan o'r cynnig hwn. Mae Ysgol Gyfun Sant Cyres, sy'n rhannu ei dalgylch gyda Stanwell, hefyd yn cael ei gordanysgrifio'n gyson ar gyfer proses bontio blwyddyn 7.

Yn yr hirdymor, dan bolisi'r cyngor, byddai preswylio o fewn dalgylch ysgol yn sicrhau bod plant lleol yn cael blaenoriaeth ar gyfer mynediad i'w hysgol leol. Yn y rhan fwyaf o achosion o dan drefniadau presennol ysgolion bwydo, mae'r rhan fwyaf o blant mewn ysgolion bwydo hefyd yn byw yn nalgylch ysgol Stanwell felly ni fyddai effaith sylweddol ar dderbyniadau i'r ysgol, fodd bynnag, byddai'n darparu dull gwell o ymdrin â derbyniadau i'r disgyblion hynny sy'n byw yn y gymuned leol.

---

THEMA 10

**Darparu profiadau uwchradd gwell**

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo pe bai'r cynnig yn llwyddiannus, y byddai'n arwain at well berthnasoedd gwaith a rhannu arferion gorau rhwng Ysgol Stanwell ac ysgolion eraill ym Mro Morgannwg. Byddai hyn yn arwain at well profiad i ddisgyblion mewn meysydd fel lles disgyblion a chymorth bugeiliol.

**Ymateb y Corff Llywodraethu i'r pryderon a godwyd**

Mae ein hysgol eisoes yn gweithio'n dda gyda nifer o ysgolion eraill ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, byddem yn elwa ar weithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd eraill a rhannu data â'r cyngor, a thrwy hynny sicrhau bod y cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael i'r ysgol yn cael eu cynyddu gan gynnwys ysgogi arbedion maint wrth reoli heriau o fewn y system addysg. Mae'r ysgol eisoes yn cyfeirio at y Panel Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (PICEM) a'r Tîm Cynhwysiant am gymorth o ran presenoldeb a gwaharddiadau, i gefnogi dysgwyr yn well i gael mynediad i'r ystod lawn o fecanweithiau cymorth sydd ar gael, fel yr amlinellir yng Nghontinwwm PICEM.

## 3. ATODIAD C - CWESTIYNAU CYFFREDIN

**A fydd y dalgylch yr ysgol yn newid?**

Does dim cynlluniau ar hyn o bryd i newid dalgylch yr ysgol. Byddai unrhyw newidiadau i dalgylchoedd yn y dyfodol yn cael eu hamlinellu mewn ymgynghoriad ar drefniant derbyniadau blynyddol gan Gyngor Bro Morgannwg yn y dyfodol.

**A fydd trefniadau'r ysgolion bwydo i'r ysgol yn dod i ben o fis Medi 2024?**

Byddai'r cyngor yn sefydlu trefniadau pontio i blant sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo cyn y newid mewn statws. Bydd trefniadau derbyn y cyngor yn berthnasol o fis Medi 2024 ar gyfer plant nad ydynt yn gymwys i'r trefniadau pontio hyn.

**Beth yw'r trefniadau pontio i blant sydd mewn ysgol fwydo ar hyn o bryd** cyn y newid?

Byddai'r cyngor yn sefydlu trefniadau pontio i blant sy'n mynychu ysgol fwydo gysylltiedig cyn y newid mewn statws. Mae'r ysgolion bwydo ar gyfer ysgol Stanwell i gyd o fewn dalgylch Stanwell ac nid oes cynnig i newid dalgylch yr ysgol. Felly, bydd y cyngor yn cadw cysylltiadau â'r ysgol gynradd fwydo ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024. Byddai pob plentyn o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6 ysgol fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 yn cadw eu statws ysgol fwydo.

**Pryd fyddai'r trefniadau pontio yn dod i ben?**

Byddai'r trefniadau pontio yn dod i ben ar gyfer proses bontio blwyddyn 6 i addysg uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf o dan drefniadau pontio yn gadael ei ysgol gynradd fwydo. Mae'r ysgolion bwydo ar gyfer ysgol Stanwell i gyd o fewn dalgylch Stanwell ac nid oes cynnig i newid dalgylch yr ysgol. Felly, byddai'r ysgol yn parhau i wasanaethu ei chymuned leol.

**A fyddai'r cyngor yn rheoli'r broses bontio blwyddyn 6 ar gyfer derbyniadau mis Medi 2024 i'r ysgol?**

Mae'r broses bontio blwyddyn 6 ar gyfer mis Medi 2024 yn dechrau ym mis Medi 2023 a chynigir lleoedd i rieni ar 1 Mawrth 2024. Felly bydd Stanwell yn rheoli'r nifer sy'n cael ei derbyn ym mlwyddyn 7 i'r ysgol ar gyfer y derbyniad mis Medi 2024.

**Pryd fyddai'r cyngor yn rheoli proses bontio blwyddyn 6 i'r ysgol?**

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, byddai'r cyngor yn rheoli'r broses bontio blwyddyn 6 i Ysgol Stanwell ar gyfer y derbyniad ym mis Medi 2025 sy'n dechrau ym mis Medi 2024.

**Sut byddai ceisiadau derbyn yn ystod y flwyddyn yn cael eu trin a phwy sy'n gweinyddu apeliadau derbyn?**

Bydd angen i rieni wneud cais am le ysgol drwy'r cyngor. Byddai'r cyngor yn gwneud cynnig neu'n gwrthod lle ysgol ar gyfer Stanwell. Byddai'r cyngor hefyd yn rheoli'r broses apelio ar gyfer rhieni fel y maent yn ei wneud ar gyfer pob ysgol gymunedol a gynhelir. Byddai holl rieni disgyblion blwyddyn 6 yn ysgolion bwydo Stanwell yn cael gwybod am y broses y mae angen iddynt ei dilyn ynghyd â holl ddisgyblion eraill blwyddyn 6 yn ysgolion Bro Morgannwg.

**A fydd y cyngor yn cysylltu â'r ysgol am gais derbyn?**

Bydd y cyngor yn cysylltu â'r ysgol am bob cais derbyn ar gyfer yr ysgol, gan gadarnhau niferoedd ar y gofrestr ac argaeledd lleoedd fel sy'n digwydd gyda'r holl dderbyniadau i ysgolion cymunedol a gynhelir.

**Beth fyddai'r effaith ar staff yr ysgol?**

Byddai'r staff yn Stanwell yn cael eu cyflogi gan y cyngor dan yr un telerau ac amodau cyflogaeth ag y maent ar hyn o bryd. Byddai Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod ymgynghoriad llawn â staff ac Undebau Llafur cydnabyddedig yn digwydd drwy gydol y broses hon o ran unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Byddai llywodraethwyr a'r cyngor yn sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r holl ofynion TUPE sy'n digwydd o ganlyniad i newid categori. Bydd yr ysgol yn elwa ar gyngor a chymorth cyfreithiol priodol gan y cyngor fel rhan o'r broses o reoli'r broses gytundebol TUPE.

Bydd swyddogion y cyngor mewn cysylltiad â darparwyr adnoddau dynol yr ysgol, yn gweithio'n agos gyda'r ysgol a'r llywodraethwyr i gefnogi staff fel y bo'n briodol ac i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir bob amser.

## 4. ATODIAD D - YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD GYDA PHOBL IFANC.

### DIGWYDDIAD YMGYNGHORI Â DISGYBLION O YSGOL STANWELL A'I HYSGOLION CYNRADD BWYDO

- Cynhaliwyd gweithdy rhyngweithiol a roddodd gyfle i ddisgyblion drafod a rhannu syniadau gyda'i gilydd.
- Cychwynnodd â thrafodaeth ar ystyr ymgynghoriad a pham y mae'n bwysig siarad â disgyblion.
- Daethpwyd i gytundeb ar yr hyn sy'n gwneud trafodaeth/ymgynghoriad da.
- Yna esboniwyd diben yr ymgynghoriad i'r disgyblion, gan gynnwys y cefndir a'r llinell amser ar gyfer y gweithgaredd.
- Rhannwyd y disgyblion yn is-grwpiau i rannu a nodi eu syniadau eu hunain. Yna unodd y grwpiau i gael trafodaeth bellach ar y syniadau hyn, yn unol â'r rheolau y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r sesiwn.
- Yn dilyn adborth y disgyblion, rhoddwyd gwybodaeth iddynt am y manteision a'r diffygion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Eglurwyd iddynt y byddai eu sylwadau'n cael eu bwydo i mewn i adroddiad ar y sesiwn hon ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r cyngor fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar yr ymgynghoriad hwn.

Yn dilyn yr adborth rhoddwyd gwybodaeth i'r disgyblion am y manteision a'r diffygion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, cawsant eu hatgoffa o'r amserlen, ac eglurwyd iddynt y byddai eu sylwadau’n cael eu bwydo i mewn i adroddiad ar y sesiwn hon ac y byddai'n cael ei gyflwyno i gorff llywodraethu’r ysgol fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar yr ymgynghoriad hwn.

## METHODOLEG GYDAG YMATEBION DISGYBLION (TUA 30 DISGYBL O’R CYNGOR YSGOL MEWN GRWPIAU BLWYDDYN GWAHANOL)

**Ysgol Stanwell - Ymatebion disgyblion**

### Manteision y cynllun arfaethedig

- Mae’n helpu'r ysgol yn ariannol; mwy o sefydlogrwydd / sicrwydd ariannol oherwydd cyllid refeniw; gwell sefyllfa ariannol.
- 'Mewn achos o argyfwng - mae gennym ni gyllid.'
- Does dim rhaid i'r ysgol feddwl am gyllidebu, gall ganolbwyntio ar y cwricwlwm addysgu; 'gallem roi'r arian sydd gennym tuag at rywbeth arall;' rhagor o arian i wella cyfleusterau.
- Ni fydd yn rhaid i chi dynnu arian oddi wrth wariant hanfodol e.e. atgyweiriadau
- Rhagor o arian i wella lles ac ansawdd profiad ysgol.
- Gwella cyfleusterau.
- Parhau i allu cyflogi ein hathrawon ein hunain.
- Gall Stanwell aros yr un peth a pheidio â cholli moesau a statws addysg o ansawdd uchel – sefydlog
- Does dim rhaid i athrawon gael eu heffeithio.
- Gallu cyfathrebu ag ysgolion eraill.
- Mae'r disgyblion yn gweithio'n agosach gyda'r cyngor - rhagor o gyfleoedd.
- Llai o amser i staff orfod prosesu derbyniadau; rhyddhau adnoddau athrawon.
- Cynyddu amser gwersi.
- Teithiau ysgol.
- Bydd yr ysgol wedi’i chynnal gan y cyngor felly bydd mwy o gyfranogiad cymunedol.
- Rhwydweithio/cyfathrebu ag ysgolion eraill.

### Anfanteision posib y cynllun arfaethedig

- Llai o ryddid dros yr hyn rydym yn ei wneud nawr
- Llai o reolaeth, o bosib? Potentially
- Colli unigoliaeth
- Gallai dynnu sylw’r Uwch-dîm Arwain (UDA) oddi wrth addysg a materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion.
- Gorfod gofyn i'r cyngor newid yr ysgol.
- Gorfod gwneud ceisiadau; gorfod aros am ganlyniadau ceisiadau i arian gael ei gymeradwyo.
- Mwy o oedi cyn cael arian.
- Newid i ysgolion bwydo; efallai yr effeithir ar y berthynas hirsefydlog ag ysgolion bwydo
- System dderbyn [y newid arfaethedig yn 2030]
- Mae'r adeilad yn dod yn eiddo i'r cyngor.
- Mae'r cyhoeddusrwydd wedi achosi pryder - myfyrwyr/rhieni yn y dyfodol.

- Ansicrwydd; annymunol
- Llai o ymreolaeth
- Oes gan ysgolion sefydledig fwy o statws?
- Wrth i'r llywodraeth newid, a fydd yn dyrannu symiau gwahanol? A fydd yn llif arian sefydlog? Ac eto, mae'n debygol y bydd y llywodraeth Lafur yn dyrannu mwy o arian [pryder y gallai newid yn y llywodraeth effeithio'n negyddol ar sefyllfa ariannol yr ysgol a'r cyngor]

**Cwestiynau:**

- A fydd gan yr awdurdod lleol unrhyw reolaeth dros sut mae'r ysgol yn cael ei chynnal?
- A fydd gennym lai o reolaeth dros y ffordd yr ydym yn gwario ein harian?
- A fyddai gwahaniaeth yn y ffordd y mae'r gyllideb yn cael ei gwario?
- A all y cyngor wrthod ceisiadau am waith cynnal a chadw?
- A oes gan y cyngor y pŵer i ddiystyru'r ceisiadau?
- Pa benderfyniadau na fydd yn cael eu gwneud gennym ni?
- Ydy ymreolaeth Stanwell dros y cwricwlwm yn newid?
- A oes gan y cyngor fewnbwn mewn e.e. prosiectau [dysgu] a sut fydd hynny'n effeithio arnom?
- Beth yw'r newidiadau o ddydd i ddydd i ddisgyblion?
- A fyddai swm yr arian rydym yn ei dderbyn yn ein cyllideb yn newid?
- Beth sy'n digwydd tan y cyfnod pontio?
- A allai fod proses drawsnewid yn y dyfodol? Ar ôl i chi ymrwymo a allwch chi newid yn ôl?
- Mae Mr Mansfield yn dweud bod gennym gynllun adfer, i ba raddau y mae'r awdurdod lleol ynghlwm wrth gefnogi hynny? (cyngor i uwch arweinwyr neu benaethiaid)
- A fydd unrhyw effaith ar athrawon - yn ariannol ac yn yr ysgol?
- A fyddai'r gyllideb yn newid?
- Pa gyfleoedd cydweithredol fyddai ar gael? Pam nad oeddent ar gael o'r blaen?
- Sut beth fydd y cyfnod cyn y cyfnod pontio?
- Beth fyddai'n newid am y broses dderbyn? A fydd derbyniadau yr un peth o ran dalgylch?
- Beth am argyfyngau?
- Beth yw'r manteision i'r cyngor? Pa fudd sydd i'r cyngor yn y cytundeb hwn?
- A fydd gan y llywodraeth [cyngor] ddigon o amser i hwyluso pob ysgol?
- Oes gan yr ysgolion bwydo lais yn hyn?
- Pam rydyn ni'n rhoi'r gorau i ysgolion bwydo?
- Pam na wnaethon ni hyn o'r blaen os yw'n syniad mor dda?
- A fydd ymdrech yn cael ei wneud i 'wneud pethau'n decach' o ran canlyniadau arholiadau, o ystyried y gwahaniaeth mewn canlyniadau arholiadau rhwng ysgolion gwahanol?

**<u>Ysgolion Cynradd Bwydo – Ymatebion Disgyblion</u>**

**Manteision y cynllun arfaethedig**

- Cyflwr ariannol gwell
- Mwy o gymorth ariannol

- Cefnogaeth yn gyffredinol
- Mwy o brofiad gydag arian, o bosib?
- Ni fyddant mewn dyled felly nid yw'n effeithio ar ddysgu plant.
- Ysgol fwy? A'r cyllid i wneud hynny.
- Syniadau codi arian
- Rhentu cyfleusterau
- Mwy o adnoddau; rhyddhau adnoddau.
- Mwy o bynciau a mwy o bethau i'w dysgu?
- Efallai y byddan nhw'n ei gwneud hi'n fwy diddorol.
- Mwy o gefnogaeth gan y cyngor
- Mwy o glybiau, teithiau ysgol, mwy o athrawon?
- Gwneud cais am ragor o arian.
- Diogelwch gwell
- Y cyngor yn cymryd mwy o ran (gallai fod yn beth da neu ddrwg)

**Anfanteision posibl y cynllun arfaethedig**

- Erbyn 2030, bydd Stanwell yn ceisio am fwy o fyfyrwyr - mwy o bobl, llai o le, mwy o athrawon, llai o elw [gan arwain at] streiciau posibl.
- Poeni am drefniadau pontio dan y cynllun newydd (poeni am fynd ar goll)
- Ffrindiau'n cael eu gwahanu yn 2030.
- Yn 2030 dim ond pobl sy'n byw yn y dalgylch [sy'n gymwys i gael eu derbyn i'r ysgol]
- Y cyngor yn cymryd mwy o ran (gallai fod yn beth da neu ddrwg)
- Llai o ryddid i wneud penderfyniadau?
- A fydd ysgolion [eraill] yn colli allan os bydd Stanwell yn cael cyllid sylweddol?
- Efallai y bydd yr ysgol yn mynd yn rhy fawr - llawer o ddisgyblion yn cyrraedd a bydd yn mynd yn rhy brysur
- Gallai'r cyngor wneud penderfyniadau a gwneud yr ysgol yn waeth.
- Gallai'r gwaith fod yn anoddach.
- Efallai y byddan nhw'n diswyddo rhai athrawon.

**Cwestiynau**

- A effeithir ar yr amserlen?
- A fydd yr oriau ysgol yn newid?
- Beth sy'n digwydd i frodyr a chwiorydd yn 2030?
- Beth sy'n digwydd i ddisgyblion sy'n ffrindiau yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd y tu allan i'r dalgylch?
- Faint o ysgolion eraill sy'n ysgolion cymunedol? Oherwydd, os oes llawer o ysgolion wedi dod yn ysgolion cymunedol mae'n rhaid bod hynny'n golygu ei fod yn beth da.
- Pwy sy'n penderfynu ar y staffio?
- A yw'n bosib i'r ysgol ddychwelyd i fod yn ysgol sefydledig os yw'n dymuno?
- Faint o lais fydd gan y cyngor? E.e. ehangu yn y dyfodol, nifer y disgyblion, offer, cyfleusterau?
- A fydd hyn yn effeithio ar y ffordd y mae plant yn dysgu?
- Pwy sydd â'r gair olaf o ran symud ymlaen i fod yn ysgol gymunedol?
- A fydd mwy o ddisgyblion yn dod i'r ysgol?
- A fydd y gwaith yn haws?

- A fydd llais y disgybl yn llai?
- A fydd y bwyd cystal? A fydd y bwyd yn rhatach? A fydd y bwyd yn waeth oherwydd ei fod yn rhatach?
- A fydd mwy o brosiectau ar gyfer ysgolion cynradd [yn ymwneud â'r prosiect y mae ysgolion bwydo yn ei wneud gyda Stanwell ar hyn o bryd].

**Arsylwadau**

- Roedd ymatebion disgyblion Stanwell o safon uchel iawn, roeddent yn hynod bwyllog ac aeddfed yn eu hymagwedd gyfan at yr ymgynghoriad hwn.
- Roedd mewnbwn oedolion y Cyngor a'r Ysgol yn ystod y sesiynau hefyd o safon uchel iawn; tra roedd staff yn bresennol, roeddent yn rhoi rhyddid llwyr i ddisgyblion rannu eu barn mewn modd agored ag onest.

## 5. ATODIAD E – YMATEB GAN ESTYN

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, anfonwyd copi o'r ddogfen ymgynghori i Estyn.

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Ysgol Stanwell i newid o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir yn y gymuned o fis Medi 2024**

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw ofynion statudol ar Estyn yn ymwneud â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn cynnig eu barn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a roddwyd gan y cynigiwr.

### Casgliad

Mae'r cynnig i newid Ysgol Stanwell o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir yn y gymuned o fis Medi 2024 yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

### Disgrifiad a manteision

Mae Ysgol Stanwell wedi rhoi rhesymeg glir dros y cynnig yn y ddogfen ymgynghori. Ceir disgrifiad ac esboniad manwl o'r cynnig, ac amserlen ragamcanol ar gyfer y gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu'r cynnig.

Maent wedi nodi'n glir ac yn deg y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol. Y brif fantais yw sicrhau gwell cynaliadwyedd a rheolaeth ariannol i'r ysgol drwy ddod yn ôl o fewn goruchwyliaeth yr awdurdod lleol. Mae manteision posibl hefyd o ran sicrwydd cynharach o leoedd ysgol, gwell cydweithio ag ysgolion eraill a mwy o ddefnydd o gyfleusterau ysgol gan y gymuned. Y brif anfantais fydd ansefydlogi posibl o ran dod â chyflogau staff cymorth i drefniadau cydraddoldeb cyflog statws sengl y cyngor. Fodd bynnag, bydd y risg hon yn cael ei lliniaru drwy'r broses TUPE ynghyd ag ymgynghori priodol â staff ac undebau llafur.

Yr unig ddewis arall i ddod yn ysgol a gynhelir yn y gymuned yw i Stanwell barhau fel ysgol sefydledig. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi derbyn adroddiad archwilio negyddol ac mae ganddi broblemau cydymffurfio na all fynd i'r afael â hwy dan y trefniadau ariannol presennol. Gan fod diffyg cyllidebol yn bodoli'n barod, nid oes fawr o ddewis ond newid statws i sicrhau dyfodol yr ysgol.

Gan mai newid statws yn unig yw'r cynnig, o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir yn y gymuned, nid oes unrhyw effaith ar drefniadau teithio na hygyrchedd darpariaeth.

Mae'r ddogfen yn nodi'n fanwl sut nad yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gofrestr yr ysgol na chofrestrau ysgolion lleol eraill. Mae'r ysgol eisoes yn denu mwyafrif ei disgyblion o ysgolion cynradd y dalgylch. Does dim cynllun i newid y dalgylch. Fodd bynnag, mae rhai rhieni sy'n byw y tu allan i dalgylch Ysgol Stanwell sy'n gosod eu plant o fewn ysgolion cynradd y dalgylch er mwyn sicrhau eu bod yn cael lle yn Stanwell. Cytunwyd ar drefniant pontio gyda'r awdurdod lleol fel y bydd unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd dalgylch Stanwell ym mis Medi 2024 yn gallu sicrhau lle

yn Stanwell, os mai dyna yw dymuniad eu rhieni, tan fis Medi 2030 pan fydd yr olaf o'r disgyblion hynny yn cyrraedd Blwyddyn 7. Nid oes unrhyw effaith ar leoedd gwag yn yr awdurdod lleol gan nad oes newid i niferoedd derbyn yr ysgol.

Y rheswm pwysicaf dros y newid arfaethedig i statws yw cyllid ac, o ganlyniad, mae'r ddogfen ymgynghori yn esbonio'r sefyllfa ariannol yn fanwl. Mae'n amlwg bod angen i'r ysgol wario arian i unioni problemau cydymffurfio a gwella ei chyfleusterau a'i hadnoddau, yn ogystal â bod angen gwell rheolaeth ariannol. Mae dychwelyd i oruchwyliaeth yr awdurdod lleol yn cael ei ystyried yn ffordd o fynd i'r afael â'r holl faterion hyn oherwydd, ochr yn ochr â'i arbenigedd wrth reoli cyllidebau, gall yr awdurdod lleol hefyd gael gafael ar ffrydiau cyllido na all ysgolion sefydledig. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn nodi faint sydd angen ei wario ac o ble yn union y daw'r cyllid hwn.

**Agweddau addysgol y cynnig**

Mae'r cynnig yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol yr ysgol ac, o'r herwydd, mae'n annhebygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar safonau addysg neu ddarpariaeth. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2022 ac mae'r corff llywodraethu'n crynhoi'r prif ganfyddiadau o bob maes arolygu yn y ddogfen ymgynghori, gan esbonio sut mae arweinwyr yn bwriadu cynnal safonau uchel yr ysgol p'un a yw'r cynnig i newid statws yn llwyddiannus ai peidio. Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar y cwricwlwm na disgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol. Ni fyddai newid statws yn amharu ar addysg dysgwyr mewn unrhyw ffordd.

Mae dwy ffordd y gallai'r cynnig fod o fudd i safonau a darpariaeth, er na ellir sicrhau'r rhain ymlaen llaw. Yn gyntaf, mae'r ysgol yn disgwyl gweithio'n agosach gydag ysgolion awdurdodau lleol eraill os yw'r cynnig yn mynd rhagddo a gallai hyn fod o fudd i staff. Yn ail, os yw'r ysgol ar sylfaen ariannol well o ganlyniad i'r cynnig, mae gan hyn fanteision posibl ar gyfer cyfleusterau ac adnoddau, a allai, yn ei dro, gael effaith gadarnhaol ar safonau.

## 6. ATODIAD F – COFNODION Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT AR Y CYNNIG

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2023.

YMGYNGHORIAD AR Y NEWID ARFAETHEDIG YNG NGHATEGORI YSGOL STANWELL –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol - Strategaeth ac Adnoddau. Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor Craffu ynghylch yr ymgynghoriad ar gynnig i newid categori Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol Gymunedol. Hysbysodd yr adroddiad y Pwyllgor am y cynnig a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Stanwell i newid ei gategori o Ysgol Sefydledig i Ysgol Gymunedol o fis Medi 2024. Roedd y penderfyniad i ddatblygu cynnig i newid categori Ysgol Stanwell o ysgol sefydledig i ysgol gymunedol yn benderfyniad i gorff llywodraethu Ysgol Stanwell.

Nodwyd y rhesymau dros y cynnig isod:

• Byddai'r newid i ysgol gymunedol yn gwella rheolaeth ariannol, yn sicrhau cydymffurfio ac yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor yn ogystal ag effeithio'n gadarnhaol ar reoli derbyniadau o fewn ei dalgylch presennol, yn ogystal â ledled Bro Morgannwg.

• Byddai'n caniatáu mynediad gwell at ffrydiau cyllido fel grantiau ysgolion bro a chyllid a106, er enghraifft, drwy Raglen Cyfalaf Cynnal a Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor.

• Byddai'r ysgol yn elwa ar weithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd eraill drwy'r awdurdod lleol gan sicrhau bod yr holl gyfleoedd ar gael ac yn cael eu trosoli’n briodol. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu ymhellach fanteision ac anfanteision newid statws. Oherwydd statws sefydledig yr ysgol hon, byddai’r Corff llywodraethu yn arwain y cynnig gyda chefnogaeth yr Awdurdod Lleol.

Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am benderfynu ar y cynnig lle na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau statudol mewn ymateb i gyhoeddi hysbysiad statudol ond os cafwyd gwrthwynebiadau, byddai'r Awdurdod Lleol yn penderfynu ar y cynnig. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 11 Medi 2023 hyd at 23 Hydref 2023.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, rhoddodd swyddogion y cyngor canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

• Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys adran Cwestiynau Cyffredin a manylion cyswllt i'r Aelodau eu defnyddio os oedd ganddynt ymholiadau.

• Cynhaliwyd sawl sesiwn ymgysylltu fel rhan o'r ymgynghoriad ac atgoffwyd rhieni a staff yn rheolaidd i ymateb i'r ymgynghoriad trwy gylchlythyr y Corff Llywodraethu, yn ogystal â'r gymuned ehangach yn ardal Penarth trwy gyhoeddiadau lleol.

• Er nad oedd lefelau ymateb i'r ymgynghoriad yn uchel ar hyn o bryd, roedd adborth gan yr ysgol yn dangos bod gweithgareddau ymgysylltu sylweddol yn cael eu cynnal a bod yr ymatebion yn gytbwys ac yn gadarnhaol ar y cyfan.

• Roedd yr archwiliad mewnol i'r Ganolfan Les yn yr ysgol wedi dod i ben gyda diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac roedd archwiliad mwy cynhwysfawr i'w gynnal yn ystod tymor yr Hydref.

Diolchodd y Cynghorydd Birch (Aelod y Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg) gyda chaniatâd i siarad, i'r swyddogion am eu gwaith yn cefnogi'r ysgol a dywedodd y dylai dysgu a chyfleusterau yn yr ysgol aros o safon uchel. Croesawodd y Cynghorwyr Hodges, Birch a Payne y cynnig fel cam cadarnhaol i'r ysgol a'r gymuned. Ar ôl ystyried y mater yn llawn, ARGYMHELLODD y Pwyllgor - (1) Nodi penderfyniad y Corff Llywodraethu i gynnal ymgynghoriad o 11 Medi 2023 i 23 Hydref 2023 ar y cynnig i newid categori'r ysgol o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir yn y Gymuned.

(2) Y dylai'r Pwyllgor gymeradwyo'r cynnig.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) I ystyried cynnwys yr adroddiad ar benderfyniad y Corff Llywodraethu i ofyn am adborth drwy ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid penodol, cyn cyhoeddi ei gynnig, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

(2) I sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant ynghylch y cynnig fel rhanddeiliad penodol.

## 7. ATODIAD G – SYLW ANGHYWIR YN Y CYFRYNGAU I'R CYNNIG

Mae'r Corff Llywodraethu wedi cael gwybod am nifer o erthyglau anghywir ac ymfflamychol yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r cynnig hwn. Nodwyd y cafwyd nifer sylweddol o ymatebion negyddol i'r cynnig yn syth ar ôl i'r cyhoeddiadau hyn ymddangos, ac mae rhai ohonynt wedi cyfeirio at yr anghywirdebau a amlinellir yn y cyhoeddiadau dan sylw. Aethpwyd i'r afael â'r rhain yn gyffredinol yn Atodiad A yr adroddiad hwn ac fe'u hamlinellir yn gryno isod hefyd.

**Byddai'r cyngor yn ymyrryd â chynnal yr ysgol**

Cynigodd y Corff Llywodraethu yn ein hysgol yr ymgynghoriad hwn yn dilyn sawl her sefydliadol a brofwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23. Nododd ein hysgol y byddai'r ysgol yn elwa ar gymorth ychwanegol gyda rheolaeth ariannol, cydymffurfio a chynaliadwyedd hirdymor yn ogystal â gweithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd eraill wrth reoli derbyniadau. Os cymeradwyir y cynnig hwn gan y Corff Llywodraethu, byddai'r gyllideb, staffio, cwricwla a chynnal a chadw adeiladau yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r ysgol fel pob ysgol gymunedol arall. Ni fyddai'r cyngor yn ymwneud â'r gwaith o reoli'r ysgol o ddydd i ddydd.

**Ar hyn o bryd daw cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Gallai'r cyngor ostwng y cyllid a dderbynnir gan Stanwell.**

Mae Ysgol Stanwell wedi bod yn Ysgol a Gynhelir gan yr Awdurdod Lleol ers 1998 ac mae cyllidebau dirprwyedig yr ysgol yn cael eu pennu gan Fformiwla Ariannu Ysgolion Prif Ffrwd. Datblygwyd y fformiwla hon a chaiff ei monitro mewn ymgynghoriad â'r Fformiwla Cyllideb Ysgolion, ac mae'n berthnasol i bob ysgol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys Stanwell. Ni fyddai unrhyw newid yng nghategori'r ysgol yn cael unrhyw effaith ar ddyraniad y gyllideb y mae'r ysgol yn ei dderbyn. Mae

cyllideb yr ysgol yn cael ei dirprwyo i'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr, a bydd yn parhau, fel sy'n wir am bob ysgol yng Nghymru. Ni fyddai unrhyw newid i hyn o ganlyniad i'r newid arfaethedig yn y categori.

Gwnaethom hefyd nodi y byddai'r cynnig yn caniatáu mynediad gwell at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro a chyllid a106, er enghraifft, drwy Raglen Cyfalaf Cynnal a Chadw a Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor.

**Derbyniodd Ysgol Stanwell 'daliad' gan Fro Morgannwg**

Nid yw hyn yn wir. Fel gydag ysgolion eraill sy'n profi diffyg cyllidebol ar gyfer 2023, mae'r ysgol wedi cael mynediad ymlaen llaw at gyllid dirprwyedig y flwyddyn ganlynol sydd wedi rhoi amser i ni sefydlu cynllun adfer tair blynedd.

**Diswyddo yn yr ysgol**

Yn ystod haf 2023, cymerodd yr ysgol gamau i roi cyfleoedd diswyddo gwirfoddol ar waith ar gyfer staff llawn amser a rhan amser, yr oedd 7 ohonynt yn athrawon. Yr unig ostyngiad yn arlwy'r cwricwlwm sy'n gysylltiedig â'r newid yn y staff yw o bum pwnc Dylunio Technoleg ar wahân (gan gynnwys Peirianneg) i dri. Lle nad yw cyrsiau eraill wedi'u cynnal, mae hyn oherwydd bod llai o fyfyrwyr yn manteisio arnynt neu oherwydd bod y cymhwyster yn dod i ben. Mae'n ofynnol i ysgolion gymryd camau i gydbwyso eu cyllidebau ac mae pob ysgol wedi profi toriadau ariannol.

**Bydd rhieni a wnaeth aberth ariannol enfawr i brynu cartrefi yn nalgylch Ysgol Stanwell yn cael gwybod y bydd eu hawl i anfon eu plant i Stanwell yn dod i ben.**

Nid oes unrhyw newidiad i dalgylch Stanwell a gynigir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Byddai trefniadau pontio i anrhydeddu trefniadau bwydo yn Stanwell yn cael eu rhoi ar waith tan 2030. Yn y tymor hwy, dan bolisi presennol y cyngor, byddai preswylio o fewn dalgylch ysgol yn sicrhau bod plant lleol yn cael blaenoriaeth ar gyfer mynediad i'w hysgol leol uwchben y disgyblion hynny sy'n mynychu ysgolion cynradd bwydo ar gyfer Stanwell ond nad ydynt yn byw yn y dalgylch. Yn y rhan fwyaf o achosion dan drefniadau presennol ysgolion bwydo, mae'r rhan fwyaf o blant mewn ysgolion bwydo hefyd yn byw yn nalgylch ysgol Stanwell felly ni fyddai effaith sylweddol ar dderbyniadau i'r ysgol, fodd bynnag, byddai'n ddull gwell o ymdrin â derbyniadau i'r disgyblion hynny sy'n byw yn y gymuned leol nad ydynt yn mynychu ysgol gynradd sy'n bwydo. Mae penderfyniadau sy'n ymwneud â darpariaeth addysg wedi, a byddant yn parhau i gael eu gwneud bob amser er budd disgyblion.

**Y broses dderbyn bresennol**

Ar hyn o bryd, gweinyddir derbyniadau gan yr ysgol yn unol â Chod Derbyn Llywodraeth Cymru: Mae Stanwell bob amser wedi bod yn ysgol gyfun annetholus yr Awdurdod Lleol a bydd y trefniadau ysgolion bwydo presennol yn parhau tan 2030 i sicrhau bod lle wedi'i warantu i bob disgybl sydd wedi cofrestru ynddynt ar hyn o bryd. Ar ôl y dyddiad hwn bydd Stanwell yn derbyn hyd at 324 o ddisgyblion i Flwyddyn 7:

ar hyn o bryd mae tua 240 o ddisgyblion yn ysgolion bwydo Ysgol Stanwell felly, fel bob blwyddyn, bydd Stanwell yn derbyn nifer fawr o ddisgyblion nad ydynt yn dod o'r ysgolion bwydo.